



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plasrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

**Wythnos beicio i'r ysgol** – cofiwch fod wythnos **Medi 27ain – Hydref 1af** yn wythnos beicio/ sgwtera i'r ysgol – gobeithio y bydd modd i chi gefnogi os oes modd i chwi wneud hynny'n ddiogel.

**Ymweliad Blwyddyn 5 i Gastell Henllys** – cofiwch fod y bus yn gadael yn brydlon am 9 o'r gloch ar ddydd Gwener, **Hydref 1af** – cofiwch ddarllen y canllawiau iechyd a diogelwch sydd yn y llythyr a ddsbarthwyd gan athrawon Blwyddyn 5, arwyddo'r atodiad a'i ddychwelyd i'r ysgol gyda'r taliad.

**Lluniau unigolion a theuluoedd** – mi fydd cwmni Tempest yn tynnu lluniau unigolion a theuluoedd ar ddydd Iau, **Hydref 7fed**. Yn sgîl cyfyngiadau Covid 19 ni fydd modd i rieni a phlant cyn ysgol neu uwchradd fod yn rhan o'r lluniau eleni.

**Diwrnod Rhyngwladol** – cynhelir ein diwrnod rhyngwladol ar ddydd Gwener, **Hydref 8fed** – gwahoddir disgyblion i wisgo gwisg sy'n cynrychioli'r wlad sy'n cael ei hastudio gan bob blwyddyn:

Meithrin – Cymru

Blwyddyn 3 – Almaen

Derbyn – Alban

Blwyddyn 4 – Ffrainc

Blwyddyn 1 – Sbaen

Blwyddyn 5 – Ariannin

Blwyddyn 2 – Eidal

Blwyddyn 6 – India

**Diwrnod Shwmae Su mae – Rhedeg / cerdded milltir gyda Mistar Urdd** – mi fydd yr ysgol yn trefnu cyfle i redeg / cerdded milltir gyda Mistar Urdd (noddedig) ar gae'r ysgol a chae'r Clwb Rygbi ar ddydd Gwener, **Hydref 15fed**. Mi fydd hyn yn gyfle i ni godi arian er mwyn cefnogi Pwyllgor Cylch yr Urdd yn ardal Aberystwyth ac hefyd y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Mi fyddwn yn parchu canllawiau Covid 19. Mae croeso i ddisgyblion wisgo lliwiau coch, gwyn a gwyrdd. Mi fyddwn yn dosbarthu ffurflen noddi yn fuan.

**Brechlyn fflw** – mi fydd y Nyrsgys Ysgol yn gweinyddu'r brechlyn fflw yn yr Ysgol Gymraeg ar ddydd Mawrth, **Hydref 19eg** – cofiwch ddychwelyd y ffurflenni priodol a ddsbarthwyd eisoes cyn gynted â phosib os gwelwch yn dda

**Cotiau glaw** – Cofiwch anfon cot i'r ysgol gyda'ch plentyn os gwelwch yn dda fel y medrwn anfon y plant allan i'r awyr iach pan fydd glaw mân yn ystod amseroedd chwarae.

**Aelodaeth yr Urdd eleni** – cofiwch os ydych am i'ch plentyn fod yn aelod o'r Urdd eleni er mwyn manteisio ar weithgareddau'r Urdd, ewch i [urdd.cymru/ymuno](http://urdd.cymru/ymuno). Pris aelodaeth unigol eleni yw £10; neu £25 ar gyfer teulu (3 neu fwy o blant). Y pris yw £1 ar gyfer plant sy'n derbyn cefnogaeth prydau ysgol am ddim. Am y pris hwn bydd aelodau yn derbyn bathodyn a cherdyn aelodaeth a mynediad i holl weithgareddau'r Urdd. I ganfod mwy am weithgareddau ein hardal ewch i [urdd.cymru/fyrdal](http://urdd.cymru/fyrdal)

**Os oes gennych unrhyw bryderon am addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

**R C Williams, Pennaeth 24/09/2021**



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

**Cycle to school week** - please remember that **September 27<sup>th</sup> – October 1<sup>st</sup>** is cycle to school week - hopefully you will be able to support if you can do so safely.

**Year 5 visit to Castell Henllys** – please remember that the bus will depart promptly at 9 o'clock on Friday, **October 1<sup>st</sup>**. I would like to remind you to read the health and safety guidelines outlined in the letter issued by Year 5 teachers, sign the attachment and return it to school with payment.

**Individual and family photos** - Tempest will be taking individual and family photos on Thursday, **October 7<sup>th</sup>**. Due to Covid 19 restrictions it will not be possible for parents and pre-school or secondary school children to be part of the photos this year.

**International Day** - our international day will be held on Friday, **October 8<sup>th</sup>** - pupils are invited to wear a costume that represents the country studied by each year:

Nursery – Wales	Reception – Scotland	Year 1 – Spain	Year 2 - Italy
Year 3 – Germany	Year 4 – France	Year 5 – Argentina	Year 6 - India

**Shwmae Su mae Day – Running / Walking a mile with Mistar Urdd** - the school will be organizing a sponsored mile run / walk with Mistar Urdd on the school field and the Rugby Club field on Friday, **October 15<sup>th</sup>**. This will be an opportunity for us to raise money to support the Urdd Committee in the Aberystwyth area and also the Parent Teacher Association. We will be respecting Covid 19 guidelines. Pupils are welcome to wear red, white and green colours. We will be distributing a sponsorship form soon.

**Flu vaccine** - the School Nurses will administer the flu vaccine at Ysgol Gymraeg on Tuesday, **October 19<sup>th</sup>** - please return the appropriate forms already distributed as soon as possible.

**Rain Coats** – Please remember to send a rain coat with your child to school in order for them to be able to go out to the fresh air during drizzly playtimes.

**Urdd Membership** – please remember if you wish for your child to be a member of the Urdd this year to take advantage of the Urdd's activities, please visit [urdd.cymru/ymuno](http://urdd.cymru/ymuno). Membership is £10 for individuals, and £25 for families (3 or more children). Membership is £1 for children who are eligible for free school meal support. At this price members will receive a badge and membership card and access to all Urdd activities. To find out more about our area's activities visit [urdd.cymru/fyrdal](http://urdd.cymru/fyrdal)

**If you have any concerns regarding your child's education then please contact me immediately.**

**R C Williams, Headteacher 24/09/2021**